



Cyfleoedd i gwrdd â gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd: Rhifyn 4

Nodir isod gyfleoedd i gwrdd â gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

LLYTHRENNEDD: DARLLEN

Yn gyffredinol, wrth ddarllen drwy'r cylchgrawn, mae cyfleoedd i wneud synnwyr o eiriau, brawddegau a thestunau cyfan drwy

- ddefnyddio'u gwybodaeth am darddiad a theuluoedd geiriau (e.e. yn yr adrannau **Beth ydy'r geiriau...?**)
- defnyddio'u gwybodaeth o gystrawen, strwythur y frawddeg a strwythur testun cyfan
- defnyddio'u gwybodaeth o gynnwys a chyd-destun.

Mae cyfleoedd i:

- ddefnyddio ystod o strategaethau, e.e. *darllen cyflym*, *darllen agos*, *anodi*, *rhagfynegi*, i gip ddarllen (sgimio) testunau i gael y neges
- canolbwyntio wrth ddarllen testunau, ar sgrin ac ar bapur, sydd yn newydd iddynt gan ddeall y wybodaeth sydd ynddynt.

Yn fwy penodol, mae cyfleoedd i:

- ddilyn syniadau cychwynol sydd o ddiddordeb iddynt drwy wneud rhagor o ymchwil, e.e. yn y darnau "Y trip", "O gwmpas Cymru" a "Byw ar blaned Mawrth".

LLYTHRENNEDD: LLAFAREDD

Yn gyffredinol, wrth ymateb ar lafar i'r darnau darllen, mae cyfleoedd i:

- ymateb yn bwyllog i syniadau eraill, gan ofyn cwestiynau cymwys.

LLYTHRENNEDD: YSGRIFENNU AR DRAWS Y CWRICWLWM

Wrth ymgymryd â gwaith ysgrifennu, mae cyfleoedd i:

- ddefnyddio offer a chonfensiynau TGCh i gyflwyno gwybodaeth a data ac i strwythuro ysgrifennu
- nodi meysydd i'w gwella yn eu gwaith ysgrifennu, golygu ac ailddrafftio
- defnyddio paragraffau i drefnu darnau ysgrifennu hirach yn adrannau
- ysgrifennu brawddegau gan sicrhau bod amser a pherson y ferf fel arfer yn gywir yn ei gyd-destun
- defnyddio'r ystod lawn o atalnodi'n gywir er mwyn gwneud i'r ystyr fod yn glir, e.e. *dynodi brawddegau (atalnodau llawn) a chymalau (atalnodau)*, a *defnyddio collnodau'n gywir*
- cynhyrchu llawysgrifen sy'n llifo ac sy'n ddarllenadwy.

RHIFEDD: DEFNYDDIO SGILIAU DATA

- Wrth drafod faint o'r dosbarth sy'n hoffi cerddoriaeth y gerddorfa lysiau, mae cyfleoedd i ymdrin â "defnyddio cywerthedd ffracsiynau, degolion a chanrannau i gymharu cyfrannau".
- Mae "Beth ydy'r broblem?" yn seiliedig ar y parthau amser ac mae llawer o waith yn y gweithgareddau'n gysylltiedig â'r maes.
- Mae'r darn "O gwmpas Cymru" yn ymwneud â rheoli arian